CYFRES C3

amserbeibl

Gwersi o'r Beibl – Safon 4

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Astudiaethau Beiblaidd o'r Efengylau

Cofiwch mai un llythyren yw ch,dd,ff,ng,ll,ph,rh,th

DARLLENWCH
Ioan 5: 1-16

ADNOD ALLWEDDOL
Ioan 5: 24

Astudiaeth 1 Nerth Iesu – Gwella Pobl Sâl

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen
Mathew 4: 23-25 Marc 1:32-34 Ioan 5: 17-27

Roedd Iesu'n crwydro llawer o gwmpas y wlad a daeth ar draws llawer o bobl. Roedd gan lawer ohonynt ryw broblem. Roedd gan Iesu nerth i'w gwella. Doedd neb byth yr un peth ar ôl cwrdd â Iesu. Newidiodd bywyd y dyn yn y Darlleniad heddiw yn llwyr!

C **Ar y map o'r ddinas, marciwch y gwahanol lefydd:-**

1) Enw'r ddinas.

2) Enw'r pwll.

3) Enw'r porth (neu'r farchnad).



C **Roedd 5 cyntedd i'r pwll. Llanwch y 5 bwlch yn y frawddeg isod ac ysgrifennwch y llythrennau coll yn y cynteddau.**

3

Gofynnodd Iesu i'r dyn "A wyt _i'n dymuno cael dy wella?"
Atebodd y dyn nad oedd yn gallu cyrraedd mewn pryd a bod rhywun arall yn mynd i mewn o'i flaen ond dywedodd Iesu wrtho "C_me_ dy _atras a cherdd_."



5

C **Mae'r llythrennau yn y cynteddau yn dangos faint o bobl oedd yn disgwyl cael eu gwella. Ysgrifennwch y gair yma.**

1

Gwelodd Iesu fod angen help ar y dyn ac aeth i'w helpu.

C **Beth ofynnodd Iesu i'r dyn?**



1

C **Beth oedd ateb y dyn?**



1

C **Rhowch ✔ neu ✗ i ddangos a yw'r brawddegau isod yn GYWIR neu'n ANGHYWIR a rhowch rif yr adnod i brofi eich ateb:-**

Dywedodd Iesu, "Fe wna i dy helpu di i gyrraedd y dŵr!"	.....	Adnod .....
Cafodd y dyn ei wella ar unwaith.	.....	Adnod .....
Roedd yr Iddewon yn falch o'r hyn wnaeth Iesu.	.....	Adnod .....
Cafodd y dyn ei wella ar y Saboth.	.....	Adnod .....

4

C **Rhowch y brawddegau isod yn y drefn gywir trwy roi'r rhifau 1 – 6 yn y blychau. (Darllenwch adnodau 12 – 16)**

- ☐ Dywedodd Iesu wrth y dyn am beidio â phechu eto rhag i rywbeth gwaeth ddigwydd iddo.
- ☐ Roedd Iesu wedi mynd i ffwrdd gan fod tyrfa yno.
- ☐ Dywedodd y dyn wrth yr Iddewon mai Iesu oedd wedi'i wella.
- ☐ Daeth Iesu o hyd iddo yn y Deml.
- ☐ Gofynnodd yr Iddewon i'r dyn, "Pwy ddywedodd wrthyt ti am gario dy fatras?"
- ☐ Dechreuodd yr Iddewon erlid Iesu.

3

Unwaith eto, roedd arweinwyr yr Iddewon yn cymryd mwy o ddiddordeb mewn ufuddhau i fanylion y Gyfraith nag mewn dangos cariad, gofal a charedigrwydd at bobl mewn angen. Esboniodd Iesu ei fod ef yn bendithio pobl sy'n credu neu'n ymddiried yn ei nerth a'i air ef yn hytrach na phobl sy'n ufuddhau i set o reolau o waith dyn.

C **Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol a thanlinellu beth y mae'n rhaid i ni ei wneud er mwyn cael bywyd tragwyddol.**

2

Enw _____

DARLLENWCH
Luc 8: 40-56

ADNOD ALLWEDDOL
Ioan 11: 25

Astudiaeth 2 Nerth Iesu – Codi'r meirw'n fyw

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen
Luc 7: 11-15 Ioan 11: 1-44 Rhufeiniaid 1: 1-4

Dywedodd rhywun rhywdro bod Iesu naill ai'n "Wallgof", yn "Ddrwg" neu'n "Dduw"!

"Pe bai Iesu wedi honni pethau fel y gwnaeth ac yna heb allu eu cyflawni, byddai hynny'n profi ei fod yn wallgof."

"Pe bai wedi dweud pethau eithafol a bod y rheiny wedi'u profi i fod yn gelwydd, byddai hynny'n profi ei fod yn ddrwg."

"Ond, ni wnaeth Iesu honni erioed ei fod yn gallu gwneud rhywbeth ag yntau'n methu, ac roedd bob amser yn dweud y gwir. Felly rydyn ni'n derbyn ei fod yn DDUW."

C **Profwyd hyn mewn tair gwyrth fawr. Llanwch y bylchau.**

Cododd _ _ _ y wraig weddw o farw'n fyw. (Luc 7:12)

Cododd _ _ _ __ Jairus o farw'n fyw. (Luc 8:42)

Cododd _ _ _ _ _ Mair a Martha o farw'n fyw. (Ioan 11: 20-23)

3

C **Darllenwch Rhufeiniaid 1:4 a gorffen y frawddeg hon.**

Peth arall sy'n profi ei fod yn Dduw yw ei fod ef ei hunan wedi _ _ _ _ _ _ _ _.

1

Mae'r digwyddiadau hyn i gyd yn profi pwy yw Iesu mewn gwirionedd. Yn y Darlleniad o'r Beibl, cawn wybod am ei nerth.

C **Tanlinellwch y geiriau cywir yn y paragraff hwn.**

Pan ddaeth Iesu 'nôl cafodd ei GASÁU / GROESAWU / ANWYBYDDU gan y dyrfa.
FFARMWR / PYSGOTWR / ARWEINYDD YN Y SYNAGOG oedd Jairus.
GWAEDDODD AR IESU / DAETH AG ANRHEG I IESU / SYRTHIODD WRTH DRAED IESU.
Ymbiliodd ar Iesu i ddod i'w gartref gan fod ei FAM YNG NGHYFRAITH / CHWAER / FERCH yn marw. Roedd hi'n 12 / 32 / 46 oed.

5

Roedd Iesu mor garedig, fe stopiodd ar y ffordd i dŷ Jairus i helpu rhywun arall oedd mewn angen.



GRID GEIRIAU

Darllenwch y stori hon sy'n dangos mawredd Iesu a llenwi'r Grid Geiriau.

1. Roedd y _ _ _ _ _ _ _ _ __ yn gwasgu ar Iesu
2. Roedd _ _ _ _ _ _ yno ac roedd hi'n sâl.
3. Roedd hi'n sâl ers _ _ _ __ _ __ mlynedd.
4. Doedd _ _ _ wedi llwyddo i'w gwella.
5. Daeth at Iesu a _ _ __ _ _ __ ag ymyl ei gôt.
6. Gofynnodd Iesu pwy oedd wedi cyffwrdd ynddo.

Atebodd Pedr mai'r tyrfaoedd oedd

yn _ _ _ _ _ _ arno.

7. Ond meddai Iesu,

"Fe gyffyrddodd rhywun â _ _."

8. Dywedodd "Fe synhwyrais fod _ _ _ __ wedi mynd allan ohonof."



C **Edrychwch ar y Grid Geiriau ac ysgrifennu'r geiriau sy'n rhedeg ar draws ac sy'n dangos pa mor sydyn y cafodd y wraig ei gwella.**

5

C **Llanwch y bylchau i ddangos beth ddywedodd Iesu wrth y wraig pan syrthiodd wrth ei draed.**

"Dy __ _ __ sydd wedi dy iacháu. Dos mewn _ _ __ _ _ _ _ __."

1

Ar ôl tipyn, cyrhaeddodd Iesu i dŷ Jairus. Cyn pen ychydig funudau, roedd wedi dangos ei fod yn gallu trechu marwolaeth trwy ddod â'r ferch yn ôl yn fyw.

C **Ysgrifennwch yr enwau cywir yn y bylchau ar bwys y brawddegau.**

	Y bobl	*Jairus*	*Jairus a'i wraig*
Pwy oedd yn ofnus?			.....
Pwy oedd yn wylo?			.....
Pwy oedd yn chwerthin?			.....
Pwy gafodd eu syfrdanu?			.....

4

C **Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol sy'n esbonio bod gan Iesu bŵer mawr, hyd yn oed dros farwolaeth.**

1

Rydyn ni i gyd fel pe baem wedi marw gan ein bod yn bechaduriaid. Ond gallwn ni gael bywyd newydd sy'n para am byth os credwn ni yn Iesu, fel y mae'n ei ddweud yn yr Adnod Allweddol. Gan fod Iesu'n gallu dod â merch Jairus yn ôl yn fyw, mae'n gallu ein codi ni o'n marwolaeth ysbrydol a rhoi bywyd tragwyddol i ni.

Enw _____

DARLLENWCH
Mathew 8: 1-13

ADNOD
ALLWEDDOL
Mathew 8: 13

Astudiaeth 3 Nerth Iesu – Helpu pobl mewn angen

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen

Marc 1: 40-45 Luc 7: 1-10 Luc 17: 11-19

Roedd Iesu newydd orffen un o'i bregethau gorau - 'Y Bregeth ar y Mynydd'.
Coedd tyrfaoedd wedi dod i wrando arno.

C **Beth oedd yn bod â'r dyn cyntaf a ddaeth at Iesu?**

C **Beth wnaeth e pan ddaeth e at Iesu?**

C **Beth wnaeth e alw Iesu?**

C **Beth oedd e'n credu y gallai Iesu ei wneud?**

4

Yn nyddiau Iesu, doedden nhw ddim yn gwybod am ffordd o wella'r gwahanglwyf ac roedden nhw'n meddwl ei fod yn heintus iawn. Os oedd y gwahanglwyf arnoch, doeddech chi ddim yn gallu gweithio na byw gartref. Fyddai neb yn dod yn agos at bobl oedd yn dioddef o'r gwahanglwyf. Ond mae'n hyfryd gweld bod Iesu'n fodlon helpu dyn gwahanglwyfus!

C **Yna, digwyddodd tri pheth rhyfeddol. Gorffennwch bob brawddeg YN EICH GEIRIAU EICH HUNAN a'u rhoi yn y drefn gywir trwy roi'r rhifau 1 – 3 wrthynt.**

☐ Dywedodd Iesu, ...

☐ Ar unwaith ..... .

☐ Estynnodd Iesu ..... .

3

Roedd rhaid i'r dyn fynd at yr offeiriad ac, os oedd yr offeiriad yn siwr bod y dyn wedi'i wella, byddai'n cael mynd nôl at ei deulu ac i'w waith.

CROESAIR wedi'i seilio ar adnodau 5 – 13

1. Daeth Iesu i dref _ _ _ _ _ _ _ _ _.
2. _ _ _ _ _ _ _ _ oedd yr ail ddyn ddaeth ato.
3. Dywedodd y dyn fod ei _ _ _ yn sâl.
4. Roedd wedi ei _ _ _ _ _ _ _.

5 + 6. Doedd y dyn ddim yn meddwl bod angen i Iesu ddod adref gydag ef.
"Dywed _ _ _ yn unig a chaiff fy ngwas ei _ _ __ _ _," meddai.

7. Dywedodd ei fod yn dweud "_ _ _ _" a bod ei weision yn dod.



4

C **Edrychwch ar Luc 7: 1-9 sy'n rhoi rhagor o fanylion. Cymharwch y ddwy stori.**

Rhowch (✔) neu (✖) wrth y brawddegau isod i ddangos a ydynt yn gywir neu'n anghywir.

☐ Roedd Iesu'n grac/flin iawn pan glywodd nad oedd y canwriad yn teimlo y gallai ei wahodd i mewn i'w gartref.

☐ Roedd Iesu'n synnu at ffydd y dyn.

☐ Roedd y canwriad yn garedig wrth y bobl ac roedd wedi codi synagog ar eu cyfer.

☐ Roedd y canwriad yn fwy gofalus o'i was na'r rhan fwyaf o ganwriaid.

☐ **4**

Roedd Iesu wrth ei fodd pan welodd faint o ffydd oedd gan y canwriad. Roedd yn credu bod geiriau Iesu'n ddigon pwerus i wella ei was hyd yn oed os nad oedd Iesu'n bresennol.



C **Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol a thanlinellu'r gair sy'n dangos bod gan y canwriad ffydd yn Iesu.**

☐ **1**

Mae llawer o'r addewidion ardderchog a wnaeth Iesu i'w gweld yn yr Efengylau. Mae angen i ni gael ffydd, fel y canwriad, i gredu y BYDD YN GWNEUD popeth y mae wedi'i addo.

C **Chwiliwch am y ddwy adnod isod a'u hysgrifennu yma i ddangos dwy o addewidion mawr Iesu i ni heddiw.**

☐ **2**

Ioan 6:37

☐ **2**

Ioan 10:9

Enw _____

DARLLENWCH
Ioan 6: 1-15

ADNOD
ALLWEDDOL
Ioan 6: 35

Astudiaeth 4 Nerth Iesu – Bwydo pobl sydd eisiau bwyd

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen
Mathew 14: 13-21 Marc 6: 34-44 Luc 10:17

Hyd yma, yn yr astudiaethau hyn, rydym wedi gweld nerth Iesu yn iacháu unigolion. Bob tro, fe wnaeth Iesu eu gwella nhw'n llwyr. Mae'r wyrth hon yn wahanol achos cafodd miloedd o bobl eu bendithio ganddi.

CHWILAIR

Llanwch y bylchau a rhoi cylch o gwmpas y geiriau yn y CHWILAIR. Maen nhw'n rhedeg ymlaen, yn ôl, i fyny, i lawr ac ar lletraws.

1. Roedd Iesu newydd groesi Môr _ _ _ _ _ _ _.
2. Roedd llawer o bobl yno am eu bod wedi gweld ei fod wedi gwella _ _ _ _ _ _ _.
3. Aeth Iesu i fyny'r _ _ _ _ __.
4. Roedd y _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ gyda Iesu.
5. Roedd gŵyl y _ _ _ _ yn ymyl.
6. Gŵyl yr _ __ _ _ _ _ oedd hon.
7. Gofynnodd Iesu i __ _ _ _ _ lle gallen nhw brynu bwyd ar gyfer y dyrfa.

D	A	I	G	E	C	I	G	W	T
E	E	P	I	L	I	PH	N	I	O
A	L	A	I	DD	E	W	O	N	D
D	I	S	G	Y	B	L	I	O	N
A	L	G	E	N	A	R	F	P	N
PH	A	E	N	Y	DD	R	I	E	O
I	G	A	M	M	A	P	E	C	P
W	R	I	G	S	O	W	L	E	G
P	A	R	S	E	L	U	C	N	I

Mae rhywbeth arall sy'n arbennig am y wyrth hon. Dyma'r unig wyrth y mae'r pedwar Efengylwr yn ei chofnodi. Mae pob un yn rhoi'r hanes dipyn bach yn wahanol, fel y mae papurau newydd yn ei wneud yn ein dyddiau ni.

7

C Darllenwch Mathew 14:14.
Mae Mathew'n dweud wrthym pam y bu i Iesu wella'r cleifion yn y dyrfa a'u bwydo wedyn. Gan ei fod yn _ _ _ _ _ _ _ _ wrthynt.

1

C Darllenwch Marc 6: 34.
Mae Marc yn esbonio bod Iesu'n gweld y bobl fel defaid heb _ _ _ _ _ _ .

1

C Darllenwch Luc 9: 10.
Mae Luc yn dweud bod hyn wedi digwydd ger tref _ _ __ _ _ _ _ _.

Mae'r awduron hyn yn dweud wrthym fod y disgyblion eisiau i Iesu anfon y dyrfa i ffwrdd gan ei bod yn mynd yn hwyr. Ond roedd gan Iesu well syniad!

1

C Yn ôl Efengyl Ioan, beth ofynnodd Iesu i Philip?

1

C **Rhowch y rhifau hyn yn y bylchau cywir yn y paragraff isod.**

5 5000 12 200 o ddarnau arian (cyflog 8 mis) 2 12

Dywedodd Philip na fyddai _____ yn prynu ddigon o fara ar gyfer y dyrfa. Dywedodd Andreas fod gan fachgen ___ dorth a ___ pysgodyn. Dywedodd Iesu wrth bawb am eistedd. Roedd o leiaf _____ o ddynion. Ar ôl i Iesu ddiolch, aeth y ___ disgybl i rannu'r bara a'r pysgod. Wedyn, aethon nhw i gasglu'r bwyd oedd dros ben ac roedd yno ___ llond basged.

3

Mae'r astudiaethau eraill wedi dangos i ni fod gan Iesu nerth i orchfygu marwolaeth ac afiechyd ac y gallai wella rhywun trwy gyffwrdd â nhw neu eu gwella o bellter. Yn awr, roedd miloedd o bobl lwglyd wedi cael digon i'w fwyta ac roedd cinio un bachgen wedi bwydo tyrfa fawr. Pan nad oedd y disgyblion yn gallu gwneud dim, roedd Iesu'n gallu darparu ar gyfer pawb.



Mae hyn yn ein hatgoffa y dylem ymddiried yn Nuw i ofalu amdanom o ddydd i ddydd..

C **Darllenwch Mathew 6: 31 a 32 ac ysgrifennu YN EICH GEIRIAU EICH HUNAN beth y mae ein "Tad Nefol" yn ei wybod..**

1

Mae Iesu'n gofalu am ein hanghenion ysbrydol hefyd. Mae'n helpu Cristnogion i dyfu ac i ddod yn gryf.

C **Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol sy'n dweud wrthym y gall Iesu fodloni ein holl anghenion.**

2

C **Cysylltwch ddwy ran y brawddegau hyn i'w gwneud i ddarllen yn gywir.**

Roedd y bobl yn meddwl mai dim ond	ceisio'i wneud yn Frenin.
Roedd Iesu'n gwybod y byddent yn	chwilio am le tawel i weddïo.
Roedd yn well gan Iesu	Proffwyd allai wneud gwyrth fel hyn.

3

Mae gwir Gristnogion yn gwybod bod Iesu'n cwrdd â'u holl anghenion. Mae ei nerth diddiwedd ar gael i ni os ydym yn ymddiried ynddo.

cyfanswm

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o **www.amserbeibl.org**
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120